

### **COVID-19 a Rolau Diffyg Cydymffurfio**

Nod y canllawiau hyn yw rhoi cyfarwyddiadau ar sut i gyflawni gweithgareddau sy'n unigryw i rolau Diffyg Cydymffurfio. Mae'r canllawiau hyn yn ychwanegol at yr hyfforddiant COVID-19 y bydd pob aelod o staff yn ei gwblhau yn ystod ei gyfnod hyfforddi.

### **Y Drefn ar Garreg y Drws**

Yn ôl eich hyfforddiant, cyn mynd at eiddo, dylech chi ddefnyddio'r diheintydd dwylo a gwisgo eich gorchudd wyneb. Ceir cyfarwyddiadau llawn ar sut i gynnal hylendid dwylo da a defnyddio'r gorchudd wyneb yn yr hyfforddiant COVID-19.

Ar ôl curo'r drws, dylech gamu yn ôl 2 fetr er mwyn cadw pellter cymdeithasol diogel. Os cewch eich gwahodd i mewn, dylech chi gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr ac osgoi cyffwrdd ag unrhyw arwynebau. Sicrhewch eich bod bob amser yn gwisgo eich gorchudd wyneb pan fyddwch chi y tu mewn i'r eiddo. Rhowch wybod i ddeiliad y cartref am y mesurau rheoli sydd ar waith er mwyn lleddfu unrhyw bryderon a all fod ganddo ynglŷn â chaniatáu i chi ddod i mewn i'r eiddo.

Cyn mynd i mewn i'r eiddo, dylech chi gynnal asesiad risg dinamig. Ystyriwch y canlynol:

- A yw deiliad y cartref yn dangos unrhyw rai o symptomau COVID-19?
- Faint o bobl sydd yn yr eiddo?
- A fydd digon o le i gadw pellter cymdeithasol yn yr eiddo?
- A yw'r eiddo yn ymddangos yn anhylan?

Os byddwch chi'n teimlo nad yw'n ddiogel, am ba reswm bynnag, PEIDIWCH â mynd i mewn i'r eiddo.

### **Croesi'r Trothwy**

Os oes modd, dylech chi gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr pan fyddwch chi y tu mewn i'r eiddo. Mewn achosion lle na ellir gwneud hyn, ni ddylai hyd y cyswllt fod yn hirach na 15 munud os bydd y pellter rhyngoch chi a'r ymatebydd yn fwy nag 1 metr, ac ni ddylai fod yn hirach nag 1 munud os bydd angen cyswllt o lai nag 1 metr.

Pan fyddwch chi yn yr eiddo, dylech chi wneud y canlynol:

- Osgoi cyffwrdd ag arwynebau anghyfarwydd
- Peidio â derbyn unrhyw beth sy'n cael ei gynnig i chi h.y. bwyd/diodydd
- Peidio â chyffwrdd ag unrhyw anifeiliaid yn y cartref
- Os bydd angen cyfnewid papurau, rhowch y rhain mewn man lle gall yr unigolyn gael gafael arnynt a symudwch yn ôl er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Unwaith y byddant wedi'u cwblhau, dylid rhoi'r dogfennau yn yr amlen neu fag diogel a dylid glanhau dwylo â'r diheintydd.
- Gofynnwch i'r unigolyn ddefnyddio ei feiro ei hun os oes modd. Os bydd angen iddo ddefnyddio eich beiro chi, dylid ei ddiheintio yn syth ar ôl ei ddefnyddio.

### **Rhannu Car**

Mae canllawiau cyfredol y llywodraeth yn caniatáu rhannu cerbydau, os bydd angen, at ddibenion gwaith. Sicrhewch eich bod yn dilyn yr isod wrth gyflawni'r agwedd hon ar eich rôl:

- Agorwch ffenestri er mwyn gadael awyr iach i mewn
- Teithiwch ochr yn ochr â phobl eraill neu y tu ôl iddynt, yn hytrach nag wyneb yn wyneb â nhw, lle bo'r trefniadau eistedd yn caniatáu hynny
- Ystyriwch y trefniadau eistedd er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o bellter rhwng pobl yn y cerbyd
- Glanhewch eich car rhwng teithiau gan ddefnyddio cynhyrchion glanhau safonol – gwnewch yn siŵr eich bod yn glanhau handlenni drysau a manau eraill y gall pobl gyffwrdd â nhw.
- Dylai'r holl deithwyr wisgo gorchudd wyneb wrth deithio gyda'i gilydd.